**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
| --- | --- | --- |
| E W Fitzgerald | S J Gallagher | D W Helliwell |
| T J Hennegan | C A Holley | P R Hood-Williams |
| M H Jones | P K Jones | S M Jones |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Rob Stewart | Aelod y Cabinet - Economi a Strategaeth (Arweinydd |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Huw Mowbray | Gwasanaeth Adfywio Economaidd A Chynllunio |
| Ben Smith | Swyddog A.151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): G J Tanner
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

2 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Gofynnodd Mr Colin Jones am fforddadwyedd a chwestiynodd hygyrchedd y broses ariannol
- Esboniodd y Cynghorydd Rob Stewart fod adroddiadau am gyllid yn cael eu cyhoeddi a gellir cael mynediad at yr wybodaeth ar unrhyw adeg ar-lein a thrwy fynd i gyfarfodydd cyhoeddus

3 **Diweddariad ar Gam 1 Cynllun Abertawe Ganolog a'r FPR7**

- Nid oedd yr achos busnes wedi cael ei gymeradwyo er gwaethaf addewidion y byddai'n cael ei gymeradwyo ym mis Mehefin a mis Hydref. Nododd y pwyllgor y byddai'n cael ei gymeradwyo'n gynnar ym mis Rhagfyr.

- Mae'r adroddiad yn egluro rhai o'r goblygiadau ariannol
- Yn ôl yr adroddiad roedd yn fforddiadwy ond byddai aelodau'n wynebu penderfyniadau anodd ar gyllidebau'r dyfodol ynghylch yr effaith bosib ar wasanaethau eraill.
- Angen elfen o gymhorthdal gan y sector cyhoeddus
- Mae risgiau'n hysbys ac yn bosib eu rheoli
- Bydd cyfle i graffu fel bydd y broses yn mynd rhagddi
- Gobeithio bydd achos busnes y Fargen Ddinesig yn cael ei gymeradwyo'n gynnar ym mis Rhagfyr gydag arian yn llifo wedyn
- Bydd yr arian yn mynd i'r swyddfa ranbarthol (Sir Gâr) ac yna i'r prosiectau a gymeradwywyd
- Gweithdrefnau llym ar waith i gynnal safon ac amserlenni gan gynnwys fframwaith Y Tu Hwnt i Frics a Morter
- Mae rhai cymariaethau â dinasoedd mwy yn annheg gan fod meintiau poblogaeth a gwerth ychwanegol crynswth yn wahanol iawn
- Mae'r Fargen Ddinesig yn gatalydd - gyda'r nod o greu prosiectau a chyfleoedd yn y dyfodol.
- Mae mwy o fyfyrwyr yng nghanol y ddinas yn rhyddhau ardaloedd cyfagos o dai amlfeddiannaeth.
- Cynlluniwyd peth llety preifat er mwyn helpu i ysgogi bwytai a siopau
- Mae bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd yn agweddau pwysig iawn ar y datblygiad
- Pont newydd fwy addas sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd
- Y bwriad yw cau'r bwlch rhwng perfformiad ariannol rhanbarthol
- Anhawster os nad yw'r arena yn gwneud elw - risg ariannol fawr. Pryderon am gystadleuaeth a dichonoldeb yr arena
- Bydd costau ariannu cyfalaf yn cynyddu ond y gobaith yw cyfyngu'r effaith ar wasanaethau rheng flaen
- Cwestiynau ynghylch fforddadwyedd
- Eglurdeb o ran union leoliad yr arena.
- Mae'r Fargen Ddinesig yn cyfrannu £22.5 miliwn dros 15 mlynedd ac felly mae'n gyfrannwr ariannol bach at y prosiect adeiladu gwerth £130 miliwn i'w gwblhau yn 21/22

4 **Gwahardd y cyhoedd**

5 **Diweddariad ar Gam 1 Cynllun Abertawe Ganolog a'r FPR7**

- Trafodwyd yr eitemau eithriedig

The meeting ended at 4.00 pm

**Cadeirydd**